

CYNGOR TREF LLANGEFNI

COFNODION Cyfarfod Llawn Cyngor Tref Llangefni, a gynhaliwyd **Nos Lun 18fed o Fai 2026** am 6.30y.h. yn Ystafell Pwyllgorau, Y Llys, Ffordd Glanhwfa, Llangefni.

YN BRESENNOL :

Cyng. Margaret Thomas-Cadeirydd

Cyng. Non Roberts-Smith
Cyng. J. Huw Owen
Cyng. Geraint Bebb

Cyng. Alwyn Parry
Cyng. J. Egryn Lewis
Cyng. Arwel Môn Hughes

HEFYD YN BRESENNOL :

Ms. Linda Powell
Mr. Huw Davies

Swyddog Gweinyddol
Aelod o'r Cyhoedd

Cynghorydd Sir :

Cyng. Dylan Rees
Cyng. Geraint Bebb

Cyfarfod yn cael ei Recordio

Croesawodd Cyng. Margaret Thomas yr Aelodau i'w chyfarfod cyntaf fel Cadeirydd am y flwyddyn 2026-2027

26/046 Ymddiheuriadau : Cyng. Non W. Parry Cyng. Henry Jones
Cyng. Terry Jones
Cynghorydd Sir : Cyng. Nicola Roberts Cyng. Non Dafydd
Heddlu Gogledd Cymru

26/047 Datganiad o Ddiddordeb : Dim

26/048 Heddlu Gogledd Cymru :

1 Camerâu Gyrru - Ardal Rhosmeirch : E-bost 27.04.2026 wedi'i dderbyn gan drigolyn yn Rhosmeirch yn pryderu fod modurwyr yn anwybyddu'r arwyddion 20mya a goryrru drwy'r pentref. Bu PCSO Gwenllian Jones ymateb yn ôl i'r unigolyn yn datgan ei bod wedi cysylltu gyda Thim Plismona Cymunedol Llangefni, i drefnu fod 'Speed Survey' yn cael ei gynnal yn Rhosmeirch. Bu dim trafodaeth bellach.

26/049 I Dderbyn Cywirdeb Cofnodion Cyfarfod Llawn 20.04.2026 :

Cyng. J. Egryn Lewis yn Cynnig a Cyng. Non Roberts-Smith yn Eilio i dderbyn y Cofnodion. **PENDERFYNWYD** derbyn y Cofnodion fel rhai cywir

26/050 I Ystyried Materion yn Codi o Gofnodion 20.04.2026 :

1 Cadeirydd yn atgoffa'r Aelodau i gysylltu gyda'r Swyddfa o flaen y Cyfarfod os oes materion yn codi o'r Cofnodion uchod. Swyddog Gweinyddol yn cadarnhau fod dim cyfathrebu trwy'r Swyddfa. Ni chodwyd unrhyw fater yn ystod y Cyfarfod o dan yr Eitem uchod.

26/051 Cynllunio :

1 I Dderbyn Cofnodion Pwyllgor Cynllunio 11.05.2026 : Ni thrafodwyd yr Eitem yma.

26/052 I Dderbyn Unrhyw Gyfathrebon Gan y Maer :

- 1 Cadeirydd yn datgan, gan ei bod newydd ddechrau ei thymor yn y Swydd fel Maer y Dref, nad oedd ganddi unrhyw fater i'w adrodd arno heno.

26/053 Materion yn Codi Gan Aelodau : Dim**26/054 Adroddiad y Clerc :**

Oherwydd sefyllfa'r Clerc, nid oedd Adroddiad i'w chyflwyno : Cadeirydd yn adrodd ar y canlynol :

- 1 **Mynwent y Dref : Cyng. Margaret Thomas yn arwain ar y canlynol :**

- Cyfarfod/Ymweliad Safle wedi'i drefnu gyda Thîm Swyddogion Cwmni CDS ar gyfer Dydd Mawrth 19eg o Fai 2026 am 10.00 y.b. yn Y Fynwent, Lon Newydd;
- Rhaglen y Cyfarfod a dogfennau priodol wedi'u rhannu gyda'r Aelodau yn y Cyfarfod heno ar gyfer yr ymweliad 19.05.2026;
- Gwahoddiad i'r holl Aelodau fynychu'r Cyfarfod a gwahodd Mr. Huw Davies i fod yn bresennol hefyd;

Ni fydd unrhyw drafodaeth bellach o dan yr Eitem yma.

- 2 **MUGA - Plas Tudur :** Gwaith wedi'i gwblhau a chroeso i bawb fynychu sesiwn "Chware Allan Bro Tudur", i hyrwyddo'r MUGA newydd, Dydd Iau 28ain o Fai 2026 rhwng 1.00y.p. a 3.00y.p. Bydd y Poster gael ei rannu gyda'r Aelodau, a bu'r Cadeirydd ddiolch yn fawr iawn i Josie Rhisiart, Môn Actif, Cyngor Sir Ynys Môn, am ei gwaith trefnu a datblygu'r MUGA.

26/055 Adroddiadau Pwyllgorau Allanol : Y Canlynol wedi'u hanfon i'r Aelodau er gwybodaeth:

- 1 **Un Llais Cymru - Pwyllgor Ardal Ynys Môn - Cofnodion Cyfarfod 22.04.2026;**
- 2 **Un Llais Cymru – Maniffesto Cyngorau Tref a Chymuned;**
- 3 **Un Llais Cymru - Gwobrau Cenedlaethol 01.07.2026:**
- 4 **Llifogydd Cymunedol – Cyflwyniad Llifogydd - Cyfoeth Naturiol Cymru 08.06.2026**

26/056 Cyllid :

- 1 **I Dderbyn Mantolen Ariannol Mis Ebrill 2026 :** Cadeirydd yn adrodd fod Cyng. J. Egryn Lewis wedi ymweld â'r Swyddfa yn gofyn am wybodaeth ynglŷn â Thaliad P8 "Power Washer". Cadeirydd yn esbonio ei fod yn offer wedi'i brynu ar gyfer gwaith glanhau'r Ystafelloedd Newid, glanhau Cerbyd y Cyngor ac a.y.b. Dim trafodaeth.

- 2 **Arolwg Mewnol 2025-2026 : Ystyried rhoi Awdurdod i'r Pwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol 22.06.2026 i fabwysiadu'r Ffurflen Flynyddol 2025-2026, er mwyn ymateb i Awdit Cymru o fewn yr Amserlen 30.06.2026.**

Cyng. J. E. Lewis yn Cynnig a Cyng. Arwel Môn Hughes yn Eilio i dderbyn Eitemau 26/056.1 ac 26/056.2 uchod.

PENDERFYNWYD derbyn Mantolen Ariannol Mis Ebrill a derbyniwyd Eitem 26/056.2 uchod.

26/057 Adroddiad Misol Cyngor Sir Ynys Môn :

Cynghorydd Sir yn adrodd ar y canlynol :

- Llongyfarchiadau i Rhun ap Iorwerth, Prif Weinidog, ar ei lwyddiant yn yr Etholiad;
- Cyngor Sir Ynys Môn yn lansio Ymgynghoriad Cyhoeddus ar yr Ardoll Ymwelwyd posibl 18.05.2026 hyd at 13.07.2026;
- Cyngorau Gwynedd a Chonwy yn ymgynghori hefyd yr un amser; : Pwysig ymateb i hyn Ar-lein;

PARHAD 26/057

- Cyfarfod Blynyddol 12.05.2026 – Etholwyd Cyng. Dafydd Rhys Thomas, Cadeirydd a Cyng. Jackie Lewis, Dirprwy Gadeirydd;
- Gwahoddiad i Agoriad Swyddogol Pabell Cyngor Sir Ynys Môn yn Eisteddfod yr Urdd Ynys Môn 2026.

26/058 Gohebiaeth a Materion Newydd :

- 1 Llan y Môr, Llangefni 13.06.2026** : E-bost 29.04.2026 wedi'i dderbyn ar ran Grŵp Siopau Llangefni, yn gwahodd y Cyngor Tref i gyfrannu tuag at y diwrnod. Cadeirydd yn adrodd ei bod yn ymwybodol o'r Achlysur a bydd yn cyfathrebu gyda'r person a anfonodd yr e-bost a Grŵp Adfywio Llangefni, ynghylch safbwynt y Cyngor Tref. Cyng. Dylan Rees yn ychwanegu bod nifer o grantiau ar gael hyd at £2,500 ar gyfer Busnesau Lleol, ac mae wedi anfon y wybodaeth ymlaen at y Grŵp Siopau heddiw. *(Nodwyd trwy'r Swyddfa fod Cyng. Non Parry yn cefnogi'r cais uchod).*
- 2 Meysydd Chwarae** : E-bost 07.05.2026 wedi'i dderbyn gan riant sy'n pryderu am gyflwr yr ardaloedd chwarae yn Llangefni. Cyng. Geraint Bebb yn dwyn sylw at Raglen "Pride in Place", sef menter gan y Llywodraeth i wella Meysydd Chwarae wrth edrych, er enghraifft, ar fynediad cadair olwyn, defnydd amlbwrpas ac offer chwarae cynhwysol. Yn dilyn trafodaeth **PENDERFYNWYD** edrych yn mwy manwl ar y pryderon yng Nghyfarfod nesaf Pwyllgor y Fynwent a Meysydd Chwarae 15.06.2026.
- 3 Eisteddfod yr Urdd 2026 - Cyngor Sir Ynys Môn** : E-bost 20.04.2026 - Pecyn wedi'i dderbyn gan Bwyllgor Gwaith yr Eisteddfod - yn gofyn i Gynghorau ystyried cyfrannu yn ariannol, os nad ydynt wedi gwneud hynny eisoes. Cadeirydd yn datgan fod yr Eisteddfod yn Ynys Môn wedi cyrraedd targedau ariannol erbyn hyn a bod y Cyngor Tref wedi cyfrannu ar ddechrau'r flwyddyn. Roedd Cyng. Non Dafydd wedi ysgrifennu at y Cyngor Tref ynglŷn â choffrau'r Apêl ac awgrymwyd Cyng. Bebb fod Cyng. Dafydd yn cysylltu gyda'r Cyngor Tref i drafod ymhellach. Derbydd a bu dim trafodaeth bellach.
- 4 Arolwg Ordnans – E-bost 30.04.2026** : Wedi'i rannu gyda'r Aelodau, er gwybodaeth;
- 5 Rheilffordd Segur, Cyfeillion Lon Las Môn - E-bost 21.04.2026** : Aelodau yn falch pe bai'r lein yn cael defnydd amlbwrpas ac yn awyddus i weld rhywbeth yn digwydd i'r dyfodol.
- 6 Adolygiad Annibynnol o Ddarpariaeth Teledu Cylch Cyfyng yng Ngogledd Cymru CCTV - E-bost 11.05.2026 - Cyngor Sir Ynys Môn** : Cadeirydd yn adrodd fod Swyddog o Brifysgol Wrecsam wedi rhoi cyflwyniad i Gyfarfod Y Pump Tref ar yr uchod. Bu comisiynu Prifysgol Wrecsam y llynedd i gynnal adolygiad annibynnol o CCTV ar draws y rhanbarth, mae'r adolygiad bellach wedi'i gwblhau, ac wedi'i rannu gyda'r Aelodau trwy e-bost. Cadeirydd yn datgan bydd mwy o wybodaeth ar gael yn dilyn Cyfarfod nesaf o'r Pump Tref sydd yn cael ei arwain gan Gyngor Tref Amlwch. Dim trafodaeth bellach.

**26/059 Gohebiaeth : Er Gwybodaeth :
Materion wedi'u hanfon trwy e-bost yn ystod Mis Ebrill 2026 :**

- | | | | |
|----------|------------------------|---|---------------|
| 1 | Un Llais Cymru | - | Derbyn |
| 2 | Materion Eraill | - | Derbyn |

**26/060 I Ystyried Unrhyw Fater Brys gan y Maer :
Cadeirydd yn adrodd ar y canlynol :**

- 1 Eisteddfod yr Urdd Ynys Môn 2026** - Dymuno bob llwyddiant i'r Eisteddfod ;
- 2 Y Lllys** : Y Llawr Cyntaf wedi cael ei brisio gan Briswyr Masnachol ar ddibenion gosod. Dangoswyd diddordeb gan unigolyn, yn unol â'r prisiad, gyda'r bwriad o ddefnyddio'r eiddo fel Swyddfa yn ystod oriau gwaith yn wythnosol rhwng 9.00 y.b. a 5.00y.h. Nid oedd gan yr Aelodau unrhyw wrthwynebiad. Nodwyd y Cadeirydd bydd yn ofynnol cael caniatâd i arddangos arwydd y tenant tu allan i'r adeilad. **PENDERFYNWYD** gweithredu'r trefniadau uchod ar gyfer Mis Medi. Dim trafodaeth bellach.

PARHAD 26/060

Derbyniwyd ymholiad arall i logi Swyddfa. Dangoswyd Swyddfa ar y llawr gwaelod i'r ymgeisydd, ond nododd ei fod angen lle mwy ar gyfer ei Fudiad. Dim trafodaeth bellach

3

Gosod Tir Penlan : Nodwyd gan Swyddog o Undeb Amaethwyr Cymru, fod tir yn cael ei osod ar denantiaeth 11 mis gyda bwlch o un mis rhwng pob cyfnod tenantiaeth. Yn dilyn hyn, cytunwyd i osod y tir i'r un tenant a llynedd am y cyfnod rhwng 1af o Fai 2026 hyd at 31ain o Fawrth 2027. Cadeirydd yn datgan bydd y Cofnodion yn cael ei diwygio yn unol â hynny a bydd y Cytundeb tenantiaeth ysgrifenedig yn cael ei arwyddo gan y Tenant a'r Cyngor Tref. Cyng. Arwel Môn Hughes yn dwyn sylw i sicrhau bydd y tenant yn gadael ar amser ar ol y denantiaeth o 11 mis.

PENDERFYNWYD gweithredu yn unol â'r uchod . Dim trafodaeth bellach.

26/061 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf : Nos Lun 13eg o Orffennaf 2026

Pwyllgor Cynllunio / Planning Committee 08.06.2026

Pwyllgor y Fynwent a Meysydd Chware/Cemetery and Play Areas Committee

15.06.2026

Pwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol/Finance and General Purposes Committee

22.06.2026

**CYNG. MARGARET THOMAS
CADEIRYDD**

7.00y.h. Diwedd y Cyfarfod